Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Llannon**
**Heol Y Nant**
**Llannon**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 6AE**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llannon

Lleolir Ysgol Gynradd Llannon ym mhentref Llannon ger Llanelli yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 101 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 4 oed meithrin amser llawn. Trefnir y disgyblion mewn pedwar dosbarth oed cymysg.

Tros dreigl tair blynedd, tua 5% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na’r ganran genedlaethol, sy’n 18%. Mae 26% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae’r ysgol wedi adnabod 21% o’i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn debyg i’r cyfartaledd cenedlaethol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2007 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae staff yn creu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, sy’n meithrin ethos dysgu cefnogol a gweithgar i’r disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn dda iawn ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae’r rhan fwyaf yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr ac y maent yn arddangos balchder yn eu hysgol.

Mae naws Gymreig gref yn bodoli yn yr ysgol ac mae’r ddarpariaeth yn hybu’r disgyblion i wneud defnydd llawn o’r Gymraeg ymhob agwedd o’u gwaith. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Maent yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda. Mae’r athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a diddorol i’r disgyblion, sy’n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol sy’n rhoi cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Caiff gefnogaeth gref gan staff ymroddedig sy’n cydweithio’n dda fel tîm.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu

A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith y disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o'r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau llythrennedd a medrau mathemategol ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn gryf ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn gwersi a sefyllfaoedd anffurfiol. Mae mwyafrif y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol heb fedrau'r Gymraeg yn dysgu'r iaith yn gyflym. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn aeddfed ac yn mynegi barn yn hyderus, er enghraifft wrth ailadrodd hanes Grace Darling. Ar frig cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn egluro eu dewisiadau yn gryno ac aeddfed, er enghraifft wrth drafod p'un ai arwr neu ddihiryn oedd Guto Ffowc. Maent yn siarad yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio iaith ffurfiol, lle bo'n briodol. Wrth sgwrsio yn y Gymraeg, maent yn defnyddio eu tafodiaith leol yn gwbl naturiol.

O'r cychwyn cyntaf, mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod llythrennau yn dda, gan ddarllen cymalau a geiriau unsill yn hyderus. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn mwynhau trafod llyfrau a chymeriadau o wahanol storïau, gan fynegi barn amdanynt yn aeddfed. Mae'r darllenwyr mwy hyderus yn darllen testunau estynedig a heriol yn rhugl. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac ynganu'n glir yn y ddwy iaith. Maent yn trafod llyfrau yn aeddfed, gan fynegi eu hoffter tuag at wahanol awduron. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio'n gydwybodol ar y we, i rannu gwybodaeth am y Pla a chanllawiau ar sut i ofalu am eu dannedd. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu huwch fedrau darllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarnhaol. Maent yn defnyddio geirfa ac iaith amrywiol yn gynyddol ym Mlwyddyn 1 a 2. Maent yn ysgrifennu darnau diddorol, er enghraifft am eu gwyliau a phortread o nyrs Ceri. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ysgrifennu stori 'Dwi'n mynd i hela llew'. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith wrth greu sgript o stori Matilda. Maent yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod o ffurfiau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gymharu amgylchedd yr ysgol â thu hwnt. Fodd bynnag, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn anniben.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn casglu data am y gwahanol fath o sbwriel a gasglwyd yn y pentref a'i arddangos yn llwyddiannus ar ffurf graff bar. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o fesur. Er enghraifft, maent yn pwyso eu bagiau ysgol gan ddefnyddio unedau ansafonol ac yn darllen tymereddau'n gywir ar gasgliad o thermomedrau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo ar

bapur ac yn y pen. Maent yn dechrau cymhwyso'u medrau'n addas mewn ychydig o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo elw neu golled yn ystod wythnos menter busnes neu wrth fesur hyd taith awyrennau mewn sesiwn dylunio a thechnoleg. Fodd bynnag, ar y cyfan, anghyson yw'r defnydd a wna'r disgyblion o'u medrau rhifedd mewn pynciau amrywiol ar draws yr ysgol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio llechen electronig yn annibynnol wrth dynnu llun a ffilmio ei gilydd wrth iddynt actio cymeriad o lyfr Winnie'r Wrach. Maent yn casglu ac arddangos data'n llwyddiannus ac yn rheoli tegan wrth iddo symud o amgylch map yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu cyflwyniadau aml gyfrwng yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn creu ffilmiau sgrin werdd i efelychu cyfweliad newyddion am lifogydd yn fedrus. Defnyddia rhan fwyaf y disgyblion Blwyddyn 6 eu medrau animeiddio'n bwrpasol i ddangos sut mae bara'n llwydo ac i greu bas data am wahanol fwystfilod bychain. Maent yn dechrau defnyddio taenlenni'n addas er mwyn cyfrifo'r losin rhataf i werthu yn ffair yr ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol tuag at eu hysgol. Maent yn teimlo'n hapus yno ac yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad teuluol a'r berthynas werthfawr sy'n bodoli rhyngddyn nhw a holl staff yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni neu'n gofidio ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r 'bocs becso' i dynnu sylw'r staff at unrhyw ofidiau sydd ganddynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn groesawgar a chwrtais tuag at ymwelwyr, a thuag at ei gilydd. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddwyn yn ardderchog yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol.

Trwy waith llysgenhadon yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u hawliau ac o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar y profiadau amrywiol a gânt i wella'u ffitrwydd, iechyd a lles corfforol. Er enghraifft, maent yn cerdded milltir y dydd, yn cymryd rhan mewn sesiynau arbenigol ac mewn nifer o glybiau ar ôl ysgol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth bwrpasol o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth am fwydydd sy'n iach iddynt eu bwyta.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn symud yn hwylus rhwng cyflwyniadau mewn gwersi a'r gweithgareddau dilynol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn gwrando ar, ac yn parchu, cyfraniadau a syniadau eraill yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ystyried barn eu cyfoedion wrth i grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 greu cymeriad i atal argyfwng neu wrth i rai ym Mlwyddyn 5 drafod effaith ffrithiant ar gyflymder cwymp parasiwt. Maent yn troi at ei gilydd er mwyn gwirio'u hatebion neu eu dealltwriaeth o'u tasg wrth wynebu sialens yn ddiffwdan. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dechrau deall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith a'r cam nesaf yn eu dysgu. Yn ddiweddar, mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen wedi dechrau cyfrannu'n addas i weithgareddau dyddiol y thema sy'n dechrau datblygu eu medrau annibynnol y tu mewn i'r dosbarth. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw cyfraniad rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 mor amlwg mewn perthynas â hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd eang a gânt i gynrychioli disgyblion eraill ac i gyfrannu syniadau am weithgareddau'r ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth materion y byd ehangach drwy godi arian i wahanol elusennau fel noddi plentyn ym Luhimba, Affrica i dderbyn addysg. O dan arweiniad y cyngor eco, mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth gadarn am gynaliadwyedd trwy atal gwastraff dŵr, ynni a phapur. Mae aelodau'r criw Cymraeg yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg, ac maent yn ddylanwad allweddol i feithrin Cymreictod ar draws yr ysgol. Maent yn ymdrechu i gael pob disgybl i hyrwyddo'r iaith yn llwyddiannus yn ystod gwersi a chyfnodau egwyl. O ganlyniad, mae defnydd ac agwedd rhan fwyaf y disgyblion tuag at yr iaith Gymraeg yn gryf iawn.

Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a chydwybodol, gan gydweithio'n agos â sefydliad merched y pentref. Trwy nifer o weithgareddau amrywiol eraill, fel cyfrannu at apêl teganau'r sir ac i'r banc bwyd lleol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o faterion cymdeithasol ac anghenion pobl eraill.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol.

Mae'r cyfleoedd rheolaidd a ddarperir gan yr holl staff i hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan naturiol o holl waith yr ysgol. Mae pob aelod staff yn fodelau rôl cadarn i ddisgyblion o ran defnyddio'r iaith. O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau trawsieithu effeithiol ac maent yn ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau cyfoethog a diddorol i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant eu hardal a Chymru. Mae ymweliadau i gastell Caerffili ac i Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe, er enghraifft, yn cyfoethogi hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol gyfan wedi dechrau cynllunio'n briodol yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol i ddisgyblion, sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd amrywiol a ddarperir i'r disgyblion yn cynnwys gweithdai i ddatblygu eu medrau meddwl o dan arweiniad cwmni cynhyrchu haearn, ac eraill gan awdures leol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu creadigol. Mae'r staff yn cynllunio themâu diddorol i'r disgyblion, sy'n hybu ac yn ategu at eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Mae'r staff yn dechrau ystyried syniadau disgyblion wrth gynllunio gweithgareddau trawsgwricwlaidd, gydag athrawon y cyfnod sylfaen yn addasu'r cynllunio i ddilyn trywyddau disgyblion. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wneud dewisiadau penodol ynglŷn â'u dysgu ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n briodol. Mae'r tasgau ffocws llythrennedd a rhifedd yn gosod her briodol ar gyfer oed a gallu'r disgyblion. Mae athrawon yn gwneud defnydd amrywiol o'r dosbarth i gynnig profiadau diddorol sy'n

cynnwys cyfleoedd buddiol i'r disgyblion chwarae rôl, fel bod yn beilot mewn awyren, er enghraifft. Er hyn, anghyson yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a chymdeithasol y disgyblion yn yr ardal allanol.

Mae'r athrawon yn dechrau cynllunio'n effeithiol i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith. Maent yn darparu cyfleoedd addas i alluogi'r disgyblion i ddefnyddio'u medrau TGCh mewn cyd-destunau amrywiol fel creu ffilm fer ar y chwedl leol, Llyn Lech Owain. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio agweddau o'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyson.

Mae'r athrawon yn cynnig nodau clir i'w gwersi ac maent yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae cyflymder y gwersi'n dda. Mae athrawon yn defnyddio technegau holi'n grefftus i helpu disgyblion ddeall cysyniadau newydd ac i ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau. Mae eu hadborth llafar yn canolbwyntio'n dda ar sut gall disgyblion wella eu gwaith ac yn eu hannog i ddyfalbarhau. Maent yn cynnig adborth ysgrifenedig pwrpasol sy'n aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Yn ddiweddar, darperir cyfleoedd rheolaidd gan athrawon i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Mae hyn yn dechrau galluogi'r disgyblion i wybod beth maent wedi'i wneud yn dda ac i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith ymhellach. Mae'r staff cymorth yn cefnogi'r athrawon yn dda ac mae eu hanogaeth i ddatblygu medrau sylfaenol a lles y dysgwyr yn codi eu hyder yn llwyddiannus ac yn eu galluogi i roi cynnig ar heriau priodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar sy'n ymfalchïo yn ei Chymreictod. Mae datblygu hyder ei disgyblion yn ganolog i'w holl waith ac ethos. Mae'n ysgol 'sy'n gwrando' ac yn rhoi bri ar lais ei disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i fonitro ac olrhain cynnydd y disgyblion ac mae staff yn eu diweddaru'n gyson i sicrhau bod y wybodaeth sydd ynddynt yn gyfredol. Mae'r staff yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol a phersonol y disgyblion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus ar eu cyfer. Mae gan y disgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau dysgu unigol manwl ynghyd â thargedau sy'n benodol a mesuradwy. Ceir mewnbwn rheolaidd gan y disgyblion a'u rhieni wrth bennu eu targedau a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw i drafod eu cynnydd. Defnyddir staff cymorth dysgu yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i gynorthwyo disgyblion unigol mewn meysydd penodol ac i weithredu ystod addas o raglenni cymorth gwerthfawr iddynt. Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu gweithdrefn i wella lles emosiynol disgyblion drwy gynnig sesiynau amlgyfrwng a chymdeithasol arbennig i'r sawl sydd eu hangen. Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi ychydig iawn o ddisgyblion i siarad am eu teimladau mewn grwpiau bach cynhaliol ac yn eu helpu i ddygymod yn dda â'u bywyd dyddiol. Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion ac wrth roi cymorth ac arweiniad pellach i staff.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni yn seiliedig ar ei pholisi drws agored. O ganlyniad, mae'r rhieni'n cydweithio â'r ysgol yn llwyddiannus ac mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi

eu plant â'u gwaith. Enghraifft dda o hyn yw cyflwyniad a drefnodd yr ysgol i helpu rhieni ddeall mwy am ddeilliannau'r cyfnod sylfaen. Roedd y cyflwyniad yn hyrwyddo pwysigrwydd darllen ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar ymrwymiad rhieni tuag at ddarllen gyda'u plant yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus mewn gwersi perthnasol ac yn ystod gweithgareddau eraill fel yr wythnos gwrth-fwlio flynyddol. Mae'r staff yn rhoi pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ymddygiad disgyblion. Trwy fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a dysgu am egwyddorion crefyddau amrywiol, mae'r staff yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion brofi elfennau ysbrydol a moesol. Cefnogir hyn yn dda wrth roi cyfle i'r disgyblion ymweld â'r eglwys a'r capel lleol fel rhan o'u gwersi ac i gymryd rhan mewn gwasanaethau Nadolig a chynhaeaf. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau creadigol y disgyblion yn arbennig o lwyddiannus. Mae staff yn rhoi cyfleoedd eang i ddisgyblion arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau. Er enghraifft, maent wedi astudio arlunwyr lleol, cyfrannu at gywaith tecstilau a gweithio gyda gof i ddylunio giât i'r ysgol. Mae'r staff yn cynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru. Trwy gyfleoedd i berfformio, cystadlu mewn cwis llyfrau ac eisteddfodau lleol a'r Urdd, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu hyder a'u medrau cymdeithasol yn llwyddiannus iawn. Yn ogystal â hyn, mae'r ymweliadau addysgol a drefnir i ddisgyblion ymweld â theatrau a mynychu wythnos breswyl i wersyll Llangrannog yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hanes lleol a thu hwnt yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy nifer o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, mae staff yn annog y disgyblion i ddysgu mwy am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Er mwyn ennyn diddordeb bron pob un disgybl mewn cadw'n heini, mae'r ysgol yn cynnig ymweliadau diddorol, er enghraifft i 'Velodrome' feicio yn nwyrain Cymru ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol gyfan fel mabolgampau a'r teithiau cerdded.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau bod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth sy'n seiliedig ar godi safonau a hybu lles a Chymreictod disgyblion. Mae'n cyfleu'r weledigaeth yn effeithiol i'r staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.

Mae aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol gan gyflawni eu rolau yn llwyddiannus a chefnogi'r pennaeth yn gydwybodol. Maent yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn anffurfiol yn rheolaidd i drafod cynnydd mewn amcanion gwella. O ganlyniad, mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Maent yn arwain agweddau penodol o waith yr ysgol yn effeithiol, sy'n canolbwyntio'n glir ar wella'r

ddarpariaeth a chodi safonau disgyblion. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r modd y mae arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i godi statws y Gymraeg trwy weithredu'r Siarter Iaith a datblygu iaith lafar y disgyblion o oed cynnar.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn briodol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang, sydd wedi ei chasglu drwy graffu ar waith, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a rhieni. Mae crynodeb o'r deilliannau a ddeilliwyd o'r gweithdrefnau hunanwerthuso yn rhoi darlun perthnasol i arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen sylw pellach. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn eu tro yn deillio'n uniongyrchol o'r dystiolaeth a gasglwyd o'r gweithdrefnau hunanwerthuso. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen gryno a chlir gyda nifer addas o flaenoriaethau perthnasol i weithredu arnynt. Mae'r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb monitro a gwerthuso effeithiolrwydd, yn glir. Mae gallu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn amlwg wrth ystyried y cynnydd a wneir gan ran fwyaf y disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer datblygu medrau athrawon a staff cymorth. Maent yn seiliedig ar ddatblygu blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol ac yn meithrin yr arbenigedd i gyfrannu'n effeithiol at wella'r addysgu a'r dysgu. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi sicrhau bod athrawon a disgyblion wedi derbyn hyfforddiant addas ar agweddau o TGCh er mwyn eu paratoi i weithredu'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae'r athrawon yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ag ysgol gyfagos, er enghraifft wrth ddatblygu agweddau o asesu ar gyfer dysgu ac i addasu'r cynllunio ar gyfer gofynion y cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fewnbwn y disgyblion i'w gwaith a'r hyn sydd ei angen i wella.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol ac ymroddgar, ac mae gan bob un gyfrifoldeb penodol. Maent yn ymweld â'r dosbarthiadau ac yn craffu ar waith y disgyblion. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu yn gadarn. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr yn datblygu'n fwriadus ac maent yn dechrau herio'r ysgol am ei pherfformiad. Enghraifft dda o hyn yw eu hymgais ddiweddar i wella eu dealltwriaeth o ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion ieuengaf.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol er mwyn darparu profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog i'r disgyblion. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau yn fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau llythrennedd a rhifedd ac i ddatblygu lles disgyblion yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2019